Adroddiad Cyfarfod 12:05:22
Taith Gerdded

Wedi cael sesiwn ioga o'r gadair mis diwethaf taith gerdded oedd i'r aelodau mis Mai. Daeth nifer dda o'r aelodau at Minffordd a cherdded ar y llwybr troed newydd tua at Tyddyn Hen. Aeth nifer dda ar daith cylch heibio Grug. Daeth pawb yn ôl i Perthyn erbyn 12.00 i gael cinio blasus.

Llongyfarchwyd Beti a Seiriol ar ddathlu 60 mlynedd o briodas ar y 12fed o Fai ac i Ellen a Gwynfor ar ddathlu 50 mlynedd yr wythnos nesaf.

Llongyfarchwyd Mary ar ddod yn hen nain unwaith eto i Aaron ac Erin ar enedigaeth Noa Jac.

Dymunwyd yn dda i Gwenllian wyres Gwyneth Llain yr Ardd ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar.

Mae'r Cynghorydd Sasha Williams wedi son bod nifer a diddordeb ail dechrau'r Boreau Coffi misol, gofynnwyd i bawb sydd â diddordeb i helpu rhoi eu henwau i Liz.

Y trip i Lerpwl ar yr 8fed o Fehefin fydd ein cyfarfod olaf am y flwyddyn, mae ychydig o le ar y bws felly cofiwch gysylltu efo Liz i archebu lle. Mae costau'r dydd yn dod o'r grant gan y Loteri Cenedlaethol felly ni fydd angen talu am y bws, y daith ar y gwch i Lerpwl na mynediad i'r oriel yn Port Sunlight.